Plant fel Deiliaid Hawliau: Dysgu o Raglen Cynhadledd Prosiect y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) "Cyfranogiad Plant mewn Ysgolion"

12:30 – 12:55: Cyrraedd a chinio - bwffe a rhwydweithio

13:00-13:10: Sylwadau Agoriadol (Athro Emeritws y Gyfraith, Jane Williams) –

13:10-13:45: Cyflwyniad am ganfyddiadau'r prosiect (Dan arweiniad y Prif Ymchwilydd Dr Sarah Chicken, Athro Cyswllt Plentyndod ac Addysg)

13:50-14:50: Symposia Set A

14:50-15:15: Egwyl luniaeth

15:15-16:05: Symposia Set B

16:05-16:45: Trafodaeth panel gyda'r tîm Cyfranogiad Plant mewn Ysgolion

16:45-17:00: Sylwadau clo (Gemma Moss, Cyfarwyddwr y Rhaglen Ymchwil Addysg, UCL).

Sganiwch yma i gael mynediad i'n hardal ar-lein ar gyfer y gynhadledd. Yma fe welwch y deunyddiau ar gyfer pob sesiwn yn ogystal â banc adnoddau ar gyfer rhai o allbynnau eraill ein prosiect.

Rydym wedi cynllunio ein digwyddiad dathlu i fod yn gyfranogol yn ymarferol ac i adlewyrchu'r partneriaethau rhanddeiliaid cymysg rydym wedi'u datblygu trwy guradu 4 gofod gwahanol.

- **Parth Bradbury**: Gofod Ystafell Ddosbarth 1. Mae gan yr ystafell gynllun ystafell ddosbarth nodweddiadol. Mae'r ystafell yn addas ar gyfer cymysgedd o gyflwyno a thrafod.
- **Theatr Gwyddoniaeth:** Cynllun neuadd ddarlithio. Mae'r ystafell yn addas iawn ar gyfer sesiynau cyflwyno.
- **Labordy KLA:** Gofod Ystafell Ddosbarth 2. Cynllun labordy gwyddoniaeth. Mae'r ystafell yn addas ar gyfer cymysgedd o gyflwyno a thrafod.
- **Llawr yr Arddangosfa:** Cynllun bwrdd crwn. Mae'r ystafell yn addas ar gyfer sesiynau trafod gyda ffocws ar drafodaethau grŵp.

Symposia Set A, 13:50–14:50

Symposiwm Set A1, Ystafell: Ystafell Bradley (Ystafell Ddosbarth 1 - cyflwyniad a thrafodaeth)

LLEISIAU PLANT: BETH DDYWEDODD Y PLANT?

WEDI'I GADEIRIO GAN: Anna Westall, Rheolwr Tîm Polisi, Plant yng Nghymru.

Sut mae plant yn deall ac yn cael profiad o hawliau cyfranogol? O'r haniaethol i'r gweledol

Wedi'i hwyluso gan: Jacqui Lewis, Prifysgol Gorllewin Lloegr; Rachel Birch, Ysgol Gynradd Tregatwg; Eve Parry, Myfyriwr ar Interniaeth.

Crynodeb: Mae'r sesiwn hon yn gyflwyniad partneriaeth rhwng ymchwilydd yn yr ysgol a myfyriwr ar interniaeth, ac mae'n canolbwyntio ar y cwestiwn ymchwil: *Sut mae plant bach yn deall ac yn cael profiad o hawliau cyfranogol?* Byddwn yn rhannu canfyddiadau plant bach o gyfranogiad ac yn archwilio beth mae cyfranogiad yn ei olygu iddynt yn eu profiadau bywyd. Bydd y cyflwyniad yn dangos sut mae plant yn ymgysylltu â'u hawl i gael eu clywed, sut maent yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, a sut mae cyfranogiad yn cael ei brofi yn eu bywydau bob dydd mewn lleoliadau addysgol. Byddwn yn amlinellu ein dull addysgegol a methodolegol o werthfawrogi lleisiau plant, gan osod y

gwaith hwn yng nghyd-destun ein Bwrdd Cynghori Plant, a byddwn yn mynd ati i archwilio cymhlethdodau a sensitifrwydd moesegol ymchwil cyfranogol mewn ffordd feirniadol gyda phlant bach. Estynnir gwahoddiad i gyfranogwyr fyfyrio ynghylch creu amgylchedd cyfranogi ac ystyried sut y gall hawliau cyfranogol plant gael eu gweithredu mewn ystafelloedd dosbarth drwy berthnasoedd, amgylcheddau, arferion, ac adegau cyffredin bob dydd.

Geiriau allweddol:

- Bwrdd cynghori plant
- Ymchwil cydweithredol
- Hawliau cyfranogol plant
- Addysg Plant yn y Blynyddoedd Cynnar
- Gweithio gyda phlant

Symposiwm Set A2, Ystafell: Theatr Gwyddoniaeth (Darlithfa - x2 gyflwyniad ac yna sesiwn holi ac ateb).

LLEISIAU YMARFERWYR: ARCHWILIO'R DATA GAN EIN HATHRAWON MEWN GWASANAETH

WEDI'I GADEIRIO GAN: Dr Tim Clark, Prifysgol Gorllewin Lloegr.

Wedi'i hwyluso gan: Dr Jacky Tyrie, Prifysgol Abertawe.

Fframwaith ar gyfer sicrhau eich bod yn cael eich clywed mewn Addysg Gynnar: Y Model Bob Dydd o Gyfranogiad Plant

Crynodeb: Mae'r sesiwn hon yn cyflwyno'r Model Bob Dydd o Gyfranogiad Plant. Datblygwyd y model drwy ymchwiliad empirig i sut mae hawliau cyfranogiad yn cael eu deall a'u rhoi ar waith o ddydd i ddydd mewn addysg gynnar; mae'n defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ymgysylltiad beirniadol â llenyddiaeth academaidd, a data ansoddol a gynhyrchir gydag athrawon plant rhwng 4 a 7 oed. Roedd yr ymchwil yn mynd i'r afael â chyfyngiadau yn y fframweithiau cyfranogi presennol, sy'n aml yn cysyniadu cyfranogiad fel rhywbeth arwahanol, hierarchaidd neu seiliedig ar ddigwyddiadau, yn hytrach na rhywbeth sydd wedi'i wreiddio mewn bywyd addysgol beunyddiol. Bydd y sesiwn, sy'n seiliedig ar yr ymchwil hwn, yn amlinellu'r Model Bob Dydd o Gyfranogiad Plant sy'n cynnwys tri dimensiwn rhyngddibynnol: (1) hawliau cyfranogiad plant, (2) set gylchol o gamau gan oedolion sy'n cefnogi'r broses o roi'r hawliau hyn ar waith o ddydd i ddydd, a (3) y cyd-destunau ecolegol ehangach sy'n siapio cyfranogiad ar lefelau unigol, sefydliadol a sosioddiwylliannol. Fel allbwn o'r astudiaeth *Cyfranogiad Plant mewn Ysgolion*, mae'r Model Bob Dydd o Gyfranogiad Plant yn dangos sut mae cyfranogiad ystyrlon yn dod i'r amlwg drwy gysoni hawliau, arferion oedolion, ac amgylcheddau galluogi, gan gynnig fframwaith sy'n ddamcaniaethol

wybodus ac sy'n berthnasol i ymarfer ar gyfer hyrwyddo hawliau cyfranogiad plant mewn cyd-destunau addysg gynnar.

Geiriau allweddol

- Model Bob Dydd o Gyfranogiad Plant
- Fframweithiau cyfranogol
- Hawliau cyfranogol plant

Symposiwm Set A3, Labordy KLA (Ystafell Ddosbarth 2 - cyflwyniad gyda thrafodaeth i ddilyn).

YR ADEGAU BACH A CHYFFREDIN

WEDI'I GADEIRIO GAN: Dr Giselle Tur Porres, Prifysgol Abertawe

Wedi'i hwyluso gan: Dr Samyia Ambreen, Prifysgol Gorllewin Lloegr.

Bach a Chyffredin: Gweithredu Cyfranogiad trwy Ymarferwyr yn Sylwi ar Straeon o Gymru

Crynodeb: Bydd y sesiwn yn cynnwys trafodaeth ar bapur gwaith sy'n archwilio profiadau bob dydd plant ochr yn ochr â rôl 'sylwadau ymarferwyr' wrth lunio cyfleoedd i gymryd rhan. Mae'n archwilio sut mae athrawon a phlant 3–7 oed yn cysyniadoli ac yn profi cyfranogiad, gan dynnu ar ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gydag athrawon a phlant yng Nghymru, cyd-destun sydd wedi'i lunio gan ymrwymiadau cryf sy'n seiliedig ar hawliau. Mae cyfranogiad yn ddyhead canolog mewn polisi addysg plentyndod cynnar, ond yn aml caiff ei ddehongli drwy fecanweithiau democrataidd ffurfiol nad ydynt yn adlewyrchu'n llawn sut mae plant iau yn cymryd rhan ym mywyd bob dydd yr ysgol. Gan ddefnyddio dyluniad ansoddol, deongliadol, cynhyrchwyd data drwy gyfweliadau cyn ac ar ôl y prosiect gyda 14 o athrawon a 21 o grwpiau ffocws gyda 109 o blant. Mae'r papur yn trafod ein hymgysylltiad parhaus â phlant ac athrawon, wedi'i gefnogi gan ddadansoddiad ailadroddus a chydweithredol, a alluogodd sylw manwl i'r eiliadau bach a chyffredin y mae cyfranogiad yn digwydd drwyddynt.
Mae ein canfyddiadau'n dangos bod plant wedi disgrifio cyfranogiad drwy benderfyniadau bob dydd, er enghraifft, rheoli tymheredd, agor ffenestri, dewis dillad a negodi chwarae yn yr awyr agored, gan dynnu sylw at gyfranogiad fel rhywbeth sydd wedi'i wreiddio mewn arferion, perthnasoedd a chyfathrebu amlfoddol, ymgorfforol. I ddechrau, mynegodd athrawon ansicrwydd ynghylch termau fel cyfranogiad a hawliau plant, gan gydnabod bod eu harferion wedi canolbwyntio ar strwythurau ffurfiol fel llais disgyblion a chynghorau ysgol. Drwy gymryd rhan yn y prosiect, fe wnaethant adrodd am newidiadau mewn ymarfer, gan gynnwys mwy o ymgysylltiad perthynasol a mwy o gydnabyddiaeth o gyfathrebu symbolaidd ac ymgorfforol.
Bydd y sesiwn yn gwahodd trafodaeth ynghylch cyfraniadau allweddol y gwaith hwn sydd ar y gweill, gan gynnwys arwyddocâd cyfranogiad bob dydd, rôl sylwi ymarferwyr fel proses gyfryngu, a'r goblygiadau ar gyfer addysgeg gynhwysol a chyfranogol, yn enwedig i blant iau a'r rhai sy'n cyfathrebu mewn ffyrdd amrywiol.

Bydd y sesiwn hefyd yn rhoi cyfle i'r mynychwyr weld dogfennaeth ddrafft ar gyfer ymarferwyr ac i drafod yn ddisgwrsiol fel grŵp.

Allweddeiriau

1. Hawliau Plant
2. Addysgeg Gyfranogol
3. Addysg Blynyddoedd Cynnar
4. Dysgu Proffesiynol Athrawon
5. Ymarfer wedi'i Ysbrydoli gan Reggio

Symposiwm Set A4, Llawr yr Arddangosfa (Man trafod - cyflwyniad byr wedi'i ddilyn gan drafodaethau rownd y bwrdd)

LLEISIAU O ADDYSG GYCHWYNNOL ATHRAWON

WEDI'I GADEIRIO GAN: Dr Paul Redford, Prifysgol Gorllewin Lloegr.

Hawliau Cyfranogol Plant Bach yng Nghymru: Beth [nad] ydyn ni'n ei ddweud wrth ein hathrawon dan hyfforddiant? Mewnwelediadau o Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru

Wedi'i hwyluso gan: Dr Patrizio De Rossi, Prifysgol Gorllewin Lloegr.

Crynodeb: Mae'r sesiwn drafod hon yn cyflwyno canfyddiadau o Gam 3 y prosiect, gan ganolbwyntio ar Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru. Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o waith cynharach, bydd yn dechrau gyda chyflwyniad sy'n edrych ar sut mae cyfranogiad plant yn cael ei ddeall, ei addysgu, a'i roi ar waith mewn rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon. Gan weithio ar y cyd ag addysgwyr athrawon o ysgolion a phrifysgolion, ochr yn ochr â myfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon, roedd y prosiect wedi archwilio gofyniad y Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr ddysgu *am, drwy ac ar gyfer* hawliau dynol. Mae'r sesiwn yn herio syniadau diofyn am 'lais y dysgwr' a thybiaethau am alluoedd plant bach, gan archwilio cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn penderfyniadau bob dydd a llunio cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth. Gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ymholiadau, nododd yr ymchwil y cyfleoedd a'r cyfyngiadau presennol o fewn elfennau Addysg Gychwynnol Athrawon yn yr ysgol ac yn y brifysgol. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu, er bod addysgeg gyfranogol yn aml yn cael ei hanwybyddu yn y ddarpariaeth Addysg Gychwynnol Athrawon, bod potensial sylweddol i ddatblygu, gyda goblygiadau pwysig o ran dysgu proffesiynol a gwireddu hawliau cyfranogol plant yn effeithiol yn y Cwricwlwm i Gymru.

Geiriau allweddol:

1. Cyfranogiad Plant
2. Addysg Gychwynnol Athrawon
3. Addysgeg Cyfranogiad
4. Cwricwlwm i Gymru

Symposiwm Set B: 15:15-16:05

Symposiwm Set B1, Labordy KLA (Ystafell Ddosbarth 2 -x2 gyflwyniad gan ymarferwyr gyda sesiwn holi ac ateb i ddilyn).

DYSGU O FYFYRDODAU YMARFERWYR

WEDI'I GADEIRIO GAN: Dr Jacky Tyrie, Prifysgol Abertawe.

Dysgu Gyda'n Gilydd: Profiadau Athrawon o Gefnogi Cyfranogiad Plant

Wedi'i hwyluso gan: Anne-Marie Jones, Ysgol Yr Hafod; Rachel Birch, Ysgol Gynradd Tregatwg.

Crynodeb: Mae'r sesiwn hon yn dod â'r athrawon sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect at ei gilydd er mwyn myfyrio ar eu taith broffesiynol, eu cyfranogiad, a'u profiadau o wreiddio cyfranogiad mewn ymarfer. Bydd athrawon yn rhannu eu safbwyntiau ar sut mae eu dealltwriaeth o gyfranogiad wedi datblygu dros amser ac a ydynt wedi mabwysiadu dulliau newydd o gynllunio ar gyfer cyfranogiad plant. Bydd y sesiwn yn edrych ar sut mae amgylcheddau'r ystafell ddosbarth wedi cael eu dylunio neu eu haddasu'n fwriadol er mwyn cefnogi lleisiau, galluogedd a chyfranogiad plant yn y broses o wneud penderfyniadau. Bydd athrawon hefyd yn trafod y newidiadau bach, ond arwyddocaol, sydd wedi cael eu gwneud i arferion, rhyngweithiadau ac ymarferion bob dydd ac sydd wedi cyfrannu at ddiwylliant cyfranogi. Drwy ddeialog fyfyriol, bydd y cyflwyniad yn tynnu sylw at fewnwelediadau ymarferol, heriau ac adegau o ddysgu y daethpwyd ar eu traws yn ystod y prosiect. Yn olaf, bydd yr athrawon sy'n cymryd rhan yn cynnig cyngor ac ystyriaethau i addysgwyr eraill sy'n ceisio cryfhau ymarfer cyfranogol.

Geiriau allweddol

- Myfyrdodau ymarferwyr
- Addysgeg cyfranogiad
- Cyfranogiad plant mewn ysgolion

Symposiwm Set B2, Ystafell Bradley (Ystafell ddosbarth 1 - cyflwyniad, gweithgaredd creadigol a thrafodaeth)

LLEISIAU O YMCHWIL MEWN PARTNERIAETH: MYFYRDODAU AR DDYSGU METHODOLEGOL

WEDI'I GADEIRIO GAN: Dr Kevin Smith, Prifysgol Caerdydd

Reggio Emilia fel Fframwaith Methodolegol Cyfranogol: Gweithio drwy drafod gydag Athrawon yng Nghymru,

Wedi'i hwyluso gan: Dr Patrizio De Rossi, Prifysgol Gorllewin Lloegr; Debi Keyte-Hartland, Artist-ymchwilydd-ymgynghorydd.

Crynodeb: Mae ymchwil cyfranogol gydag athrawon yn aml yn cael ei gyflwyno fel rhywbeth democrataidd ond sydd eto wedi'i gyfyngu gan bwysau atebolrwydd sy'n atgynhyrchu hierarchaeth (Koutselini, 2008; Parsons, 2021). Mae'r sesiwn fethodolegol hon yn ail-leoli egwyddorion dull Reggio Emilia fel fframwaith ar gyfer ymchwil cyfranogol gydag oedolion (Cagliari et al., 2016; Rinaldi, 2021), gan ofyn sut y gellir rhoi egwyddorion o'r fath ar waith gydag athrawon a pha amodau sy'n llywio cyfranogiad. Gan droi at ymholiad cydweithredol blwyddyn o hyd gydag athrawon cynradd yng Nghymru, mae'r sesiwn yn archwilio sut y gwnaeth *progettazione* (dyluniad ailadroddus), *reciprocal formazione* (dysgu proffesiynol wedi'i gyd-lunio) a *confronto* (cyfnewid deialog) lywio dyluniad, moeseg a dull cynnal cyfarfyddiadau ymchwil (Giamminuti et al., 2024). Roedd gweithdai trafod, a gefnogir gan ieithoedd amlfoddol a symbolaidd, wedi creu mannau i ddod ag ansicrwydd, effaith a thensiwn proffesiynol i'r wyneb (Kara, 2020). Mae'r canfyddiadau'n dangos bod cyfranogiad yn cael ei drafod yn barhaus yn hytrach na'i gyflawni, wedi'i siapio gan gyfyngiadau amser, normau sefydliadol ac arferion blaenllaw sy'n seiliedig ar siarad (Dahlberg a Moss, 2005). Mae'r sesiwn yn cyfrannu at fframwaith methodolegol perthynol a ysbrydolir gan Reggio, gan osod cyfranogiad fel gwaith araf, trafodaethol a moesegol sylwgar o fewn systemau sydd wedi'u cyfyngu'n strwythurol. Bydd y sesiwn yn cynnwys gweithgaredd grŵp dan arweiniad Debi Keyte-Hartland sy'n defnyddio methodolegau creadigol i archwilio cwestiwn sy'n ymwneud â'r broses ymchwil.

Geiriau allweddol:

1. Ymchwil cyfranogol
2. Dull Reggio Emilia
3. Dysgu proffesiynol athrawon
4. Methodoleg trafod

Cyfeiriadau

Cagliari, P., Castagnetti, M., Giudici, C. & Rinaldi, C. (2016). *Loris Malaguzzi and the Schools of Reggio Emilia: A Selection of His Writings and Speeches 1945–1993*. Llundain: Routledge.
Dahlberg, G. & Moss, P. (2005). *Ethics and Politics in Early Childhood Education*. Llundain: Routledge.
Giamminuti, S., Cagliari, P., Giudici, C. & Strozzi, P. (2024). *The Role of the Pedagogista in Reggio Emilia: Voices and Ideas for a Dialectic Educational Experience*. Llundain: Routledge.
Kara, H. (2020). *Creative Research Methods: A Practical Guide*. Bryste: Policy Press.
Koutselini, M. (2008). Participatory teacher development at schools: Processes and issues. *Action Research*, 6(1), pp. 29–48.
Parsons, S. (2021). The importance of collaboration for knowledge co-construction in 'close-to-practice' research. *British Educational Research Journal*, 47(6), pp. 1490–1506.

Rinaldi, C. (2021). *In Dialogue with Reggio Emilia: Listening, Researching and Learning*. Llundain: Routledge.

Symposiwm Set B3, Llawr yr Arddangosfa (Man trafod – nifer o drafodaethau rownd y bwrdd sy'n canolbwyntio ar faterion prosiect allweddol)

WEDI'I GADEIRIO GAN: Dr Paul Redford, Prifysgol Gorllewin Lloegr.

Deialog ar y Cyd am Gyfranogiad Plant: Tensiynau, Dysgu, a Newid

Wedi'i hwyluso gan: Dr Sarah Chicken, Prifysgol Gorllewin Lloegr, Dr Samyia Ambreen, Prifysgol Gorllewin Lloegr, Dr Tim Clark, Prifysgol Gorllewin Lloegr,Dr Paul Redford, Prifysgol Gorllewin Lloegr,Jacqui Lewis, Prifysgol Gorllewin Lloegr

Crynodeb: Mae'r sesiwn hon yn creu gofod i drafod a chydweithio er mwyn mynd ati i archwilio'n feirniadol y materion allweddol a godwyd gan randdeiliaid yn ystod y gynhadledd. Drwy ddeialog strwythuredig, bydd cyfranogwyr yn archwilio'r materion allweddol a godwyd yn ystod y prosiect a byddant yn ymateb i'r atebion a gafwyd gan fynychwyr cyn y gynhadledd.
Mae'r byrddau trafod yn debygol o ganolbwyntio ar rai o'r canlynol:

1. Yr hyn sy'n galluogi ac yn rhwystro plant dan 7 oed rhag cyfranogi
2. Creu'r Amodau ar gyfer Ymchwil Cyfranogol a Dysgu Proffesiynol
3. Pwyso a mesur addysgeg cyfranogi mewn ymarfer gydag athrawon a phlant
4. Y camau nesaf ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon
5. Cwmpasu ymchwil yn y maes yn y dyfodol

Mae'r sesiwn yn gwahodd deialog a gwneud synnwyr ar y cyd ar draws rolau, cyd-destunau a safbwyntiau.

16:05-16:40: Panel

Trafodaeth panel 35 munud gyda'r tîm Cyfranogiad Plant mewn Ysgolion dan gadeiryddiaeth yr Athro Jane Williams.

Gall mynychwyr ychwanegu eu cwestiynau ar gyfer y panel at y mesurydd Menti ar-lein. Cwestiynau Panel Cynhadledd CPIS - Mentimeter. **Noder y bydd y mesurydd Menti yn cau yn ystod yr egwyl lluniaeth 14:50-15:15.**

Bydd unrhyw gwestiynau na chânt eu hateb ar y diwrnod yn cael eu hateb drwy e-bost.